OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 452

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

### Cyfyngiad ar bersonau yn gadael y man lle y maent yn byw neu fod y tu allan iddo

**4.**—(1) Mae rheoliad 8 o'r prif Reoliadau wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (1), ar ôl "byw" mewnosoder "neu aros i ffwrdd o'r man hwnnw".

(3) Ym mharagraff (2)—

(a) yn lle is-baragraff (a) rhodder—

"(a) i gael cyflenwadau oddi wrth unrhyw fusnes neu wasanaeth a restrir yn Rhan 4 o Atodlen 1 gan gynnwys—

(i) bwyd a chyflenwadau meddygol ar gyfer y rheini yn yr un aelwyd (gan gynnwys anifeiliaid yn yr aelwyd) neu ar gyfer personau hyglwyf;

(ii) cyflenwadau ar gyfer cynnal, cynnal a chadw a gweithrediad yr aelwyd, neu aelwyd person hyglwyf;

(aa) i gael arian oddi wrth unrhyw fusnes neu wasanaeth a restrir ym mharagraffau 38 neu 39 o Atodlen 1 neu i adneuo arian gydag unrhyw fusnes neu wasanaeth o'r fath;"

(b) yn lle is-baragraff (b) rhodder—

"(b) i wneud ymarfer corff, ddim mwy nag unwaith y dydd (neu'n amlach os oes angen hyn oherwydd cyflwr iechyd neu anabledd penodol), naill ai—

(i) ar ei ben ei hun,

(ii) gydag aelodau eraill o aelwyd y person, neu

(iii) gyda gofalwr y person;"

(c) ar ôl is-baragraff (g) mewnosoder—

"(ga) i ymweld â mynwent, claddfa neu ardd goffa i dalu teyrnged i berson ymadawedig;"

(d) yn is-baragraff (i)—

(i) ym mharagraff (i), yn lle "blentyn y person" rhodder "blentyn y mae'r person yn rhiant mewn perthynas ag ef, neu y mae ganddo gyfrifoldeb rhiant drosto, neu ofal drosto";

(ii) ym mharagraff (iii), yn y testun Saesneg, yn lle "Department of Work" rhodder "Department for Work";

(e) yn is-baragraff (l), yn lle "fo'n angenrheidiol" rhodder "na fo modd gohirio'r symud".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 4 mewn grym ar 25.4.2020 am 12.01 a.m., gweler **rhl. 1(1)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

- Regulations revoked by S.I. 2020/725 reg. 3(1)(c)
- Regulations revoked by S.I. 2020/725 reg. 3(1)(c)
- reg. 4 coming into force by S.I. 2020/452 reg. 1(1)